

**PRESENNOL :**

**Cynghorwyr:** Math Williams, Geraint Strello, Peter Garlick, Gwyneth Thomas, Mirain Llwyd Owen

Mae y Cynghorydd Cadi Sion wedi colli 6 mis yn olynol o gyfarfodydd, heb roi unrhyw reswm, ac felly datgenir o dan Adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 bod ei swyddogaeth fel cynghorydd wedi dod i ben.

Cytunwyd i ddechrau'r broses o gyfethol unigolyn newydd i'r cyngor.

**Cadeirio:** Erddyn Davies

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

**1. YMDDIHEURIADAU**

Emyr Williams, Dafydd Iwan, Ifor Dylan Williams, Wynn Roberts

**2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL**

Dim

**3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd cofnodion Rhagfyr 2018. Cynnig: Peter Garlick  
Eilio: Mirain Llwyd Owen

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**4.1 Clwb Ieuenctid Bontnewydd**

Mae Cyngor Gwynedd yn dal i ddisgwyl i'r gwiriadau DBS gael eu prosesu cyn y gall y Clwb ddechrau.

Hyd yn oed os y derbynir y gwiriadau DBS yn fuan, mae hyn yn golygu mai ond ychydig o amser fydd i'r Clwb Ieuenctid ymsefydlu cyn diwedd y

flwyddyn ariannol. Gan hynny, mae'n amhosibl i'r Cyngor Cymuned asesu llwyddiant y Clwb wrth benderfynu swm y Praesept.

Gofynnodd y Clerc a fyddai Cyngor Gwynedd yn fodlon ymestyn y cyfnod o 30 wythnos yr oeddynt wedi cytuno i'w ddarparu heibio diwedd y flwyddyn ariannol, ond yr ymateb a gafwyd oedd na fyddai hyn yn bosibl.

Serch hynny, gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd unwaith eto gan bwysleisio nad bai y Cyngor Cymuned yw'r oedi cyn dechrau'r gwasanaeth a bod darpariaeth o 30 wythnos wedi ei gytuno.

#### **4.2 Cerrig Afon Gwyrfaï a Llifogydd Bontnewydd**

Cafwyd ymateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yn egluro fod eu harbenigwyr o'r farn nad oedd angen symud y cerrig o'r afon, gan nad oeddynt yn cael unrhyw effaith ar lif yr afon nag yn peri risg llifogydd.

Fodd bynnag, roedd eu hymateb yn croes ddweud yr hyn a drafodwyd ac a gytunwyd yn dilyn cyfarfod safle gyda hwy y llynedd.

Bydd y Clerc yn ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru gan fynegi nad oedd eu hymateb yn adlewyrchu'r hyn a gytunwyd yn wreiddiol, ac yn mynegi fod y llythyr yn gymysglyd gan eu bod yn cyfeirio at gyfarfod rhyngddynt â'r Cynghorydd Geraint Strello ym mis Medi 2018 – cyfarfod nas ddigwyddodd.

#### **4.3 Giat Lôn Eifion**

Mae Cyngor Gwynedd wedi gosod giat newydd ar waelod y llwybr sy'n arwain o Lôn Eifion tuag at Fontnewydd.

Mae'r giat yn awr yn agor am i fyny, ac er ei bod hi ychydig yn anoddach i'w hagor na phetai'n agor am i lawr, cytunwyd fod y giat newydd yn gweithio'n dda, ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion amdani.

#### **4.4 Cadw Cymru'n Daclus**

Bydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Age Cymru yn trafod yn eu cyfarfod ym mis Chwefror y farn am gael rhandiroeddd i'w mabwysiadu gan wahanol grwpiau are eu tir ger y pencadlys ym Montnewydd.

Mae Cadw Cymru'n Daclus wedi danfon hefyd fanylion am grantiau y gellir ymgeisio amdanynt mewn perthynas â thacluso a chadw ardal yn daclus.

#### **4.5 Y Ganolfan**

Cyflwynodd y Cynghorydd Math Williams fantolen yn dangos sefyllfa ariannol Y Ganolfan. Mae'r sefyllfa yn gymharol fregus, ac mae sicrhau defnydd cyson o'r Ganolfan yn hanfodol er mwyn iddi dalu ffordd.

Mae'r hen ystafell snwcer yn cael ei addasu ar gyfer defnydd fel ystafell arall y medrir ei rhentu.

Bydd hefyd angen gwario ar y drws tân yn y Neuadd, a thrwsio'r to ble mae dŵr yn gollwng.

#### **4.6 Binlau Halen**

Mae'r biniau halen wedi eu llenwi gan Gyngor Gwynedd. Maent wedi cytuno i osod bin newydd am ddim ger Plas Llanfaglan gan fod yr un presennol wedi torri. Mae hwn wedi ei archebu a dylai gael ei osod yn fuan.

Mae'r blwch presennol sydd ger Plas Llanfaglan wedi ei lenwi er ei fod wedi ei dorri ac mewn cyflwr gwael.

### **5. MATERION ARIANNOL**

#### **5.1 Cyflog a Chostau Clerc Rhagfyr a Ionawr 2018 a 2019**

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

**Cyfanswm Gros** £253.18 y mis

**Cyfanswm Net** £211.58 y mis x2 = £423.16

#### **5.2 Costau Postio Clerc £2.32**

#### **5.3 Balans yn y Banc 1 Ionawr 2018 £15,715.**

#### **5.4 Praesept 2019/20**

Trafodwyd swm y Praesept ar gyfer 2019/20, ac ystyriwyd gwariant presennol y cyngor cymuned a gwariant angenrheidiol ar gyfer 2019/20.

Adroddodd y Clerc ei fod wedi cael sylwadau gan y Cynghorydd Ifor Williams yn gwrthwynebu codi'r Praesept ac yn mynegi'r farn na ddylai Cyngor Cymuned ariannu'r Ganolfan na chynnal Clwb Ieuenctid.

Cafwyd sylwadau hefyd gan y Cynghorydd Wynn Roberts oedd am gyfyngu unrhyw godiad yn y Praesept i £1,000, a mynegodd hefyd amheuaeth a oedd galw am Glwb Ieuenctid.

Ystyriwyd y sylwadau yma, ac fe gafwyd trafodaeth a oedd hi'n synhwyrol i'r Cyngor Cymuned gyllido Clwb Ieuenctid, fyddai'n debygol o gostio tua £2,800 ar gyfer 37 cyfarfod y flwyddyn.

Cafwyd amrywiaeth barn, ond fe benderfynwyd cyllido'r Clwb Ieuenctid ar gyfer 2019/20, oherwydd fod dau berson wedi eu penodi i gynnal y Clwb, ac mai peth synhwyrol fyddai cynnal y Clwb am gyfnod penodol ac asesu'r galw a'i lwyddiant.

Penderfywyd codi'r Praesept £2,000 o £16,500 i £18,500.

## **6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

Dim

## **7. GOHEBIAETH**

- Diwrnod agroed Ambiwlans Awyr 20 Chwefror
- Cwmni Hamdden Gwynedd
- Ymgynghoriad gosod Tai Cymdeithasol Gwynedd

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth, gan gefnogi bwriad Cyngor Gwynedd i ddiwygio'r system bresennol o osod Tai Cymdeithasol yng Ngwynedd.

## **8. MATERION ERAILL**

### **8.1 Meinciau ar Safle Ail-gylchu Bontnewydd**

Mae'r Cynghorydd Peter Garlick wedi llwyddo i gael meinciau gan Men's Sheds, Caernarfon ac wedi eu gosod ar yr hen safle ail-gylchu ym Montnewydd.

Bydd hyn yn tacluso'r ardal ac yn lleihau y siawns o swbriel yn cael ei adael yno.

## **8.2 Adolygiad Trafnidiaeth Gyhoeddus Gwynedd**

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal adolygiad hir-dymor ar dtrafnidiaeth gyhoeddus yng Ngwynedd. Ceir tan ddiwedd Ebrill i ymateb.

## **8.3 Gorchymyn cau ffordd Caethro – Rhos bach**

Bydd nifer o lwybrau cyhoeddus a ffyrdd gwledig yn cau dros dro oherwydd gwaith ar ffordd osgoi Bontnewydd.

## **8.4 Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig Bontnewydd a Llinellau melyn yn Bontnewydd a Gorchymyn Gwahardd Traffig Dôl Beuno.**

Bydd llinellau melyn yn cael eu gosod yn fuan ger y siop sglodion, fel yr amlinellwyd yn flaenorol gan Gyngor Gwynedd. Mae traffig hefyd yn cael ei wahardd ar ran o Ddôl Beuno am rai misoedd tra bo gwaith yn cael ei wneud.

## **8.5 Canllawiau Rhoddion**

Penderfynwyd cytuno ar y canlynol fel canllawiau wrth ddidoli rhoddion:-

- Bod budd i'r gymuned leol
- Angen darparu mantolen
- Bod yr arian yn cael ei ddefnyddio i bwrpas penodol
- Cydnabyddiaeth am y rhodd

## **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**7 Mawrth** 2019 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd